OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 1995 (Cy. 197)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffig Arbrofol Traffordd yr M4 (Ffordd Ymuno Tua'r Gorllewin, Cyffordd 41 (Pentyla), Castell-nedd Port Talbot) 2014

Gwnaed	*21 Gorffennaf 2014*
Yn dod i rym	*4 Awst 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), yn bwriadu cynnal cynllun arbrofol mewn perthynas â darn penodol o'r draffordd ac maent wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar y darn hwnnw o'r draffordd at y diben hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 9(1)(a) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Awst 2014 a'i enw yw Gorchymyn Traffig Arbrofol Traffordd yr M4 (Ffordd Ymuno Tua'r Gorllewin, Cyffordd 41 (Pentyla), Castell-nedd Port Talbot) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y prawf" ("*trial period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06:30 o'r gloch ar 4 Awst 2014 ac a ddaw i ben am 18:30 o'r gloch ar 2 Chwefror 2016;

ystyr "y darn o'r draffordd" ("*the length of the motorway*") yw'r darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla) ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r draffordd rhwng 06:30 o'r gloch hyd 09:30 o'r gloch a rhwng 15:30 o'r gloch hyd 18:30 o'r gloch.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Gorffennaf 2014

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.